

Craffu ar ddull Llywodraeth Cymru o ran adferiad COVID-19 a phwysau'r gaeaf: materion allweddol o Bwyllgorau'r Senedd

Papur briffio

Rhagfyr 2021



Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
ymchwil.senedd.cymru/

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Senedd Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1SN

Ffôn: **0300 200 6322**
E-bost: **amy.clifton@senedd.wales**
Twitter: **[@SeneddYmchwil](https://twitter.com/SeneddYmchwil)**
Ymchwil y Senedd: **ymchwil.senedd.cymru**

© Hawlfraint Comisiwn y Senedd Cymru 2021

Ceir atgynhychu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhychu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Craffu ar ddull Llywodraeth Cymru o ran adferiad COVID-19 a phwysau'r gaeaf: materion allweddol o Bwyllgorau'r Senedd

Papur briffio

Rhagfyr 2021

Golygyddion:

Amy Clifton and Božo Lugonja



Cynnwys

1. Cefndir	1
2. Iechyd a gofal cymdeithasol	1
2.1. Cynllunio ar gyfer pwysau'r gaeaf	1
2.2. Rhaglen frechu COVID-19	1
2.3. Y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol.....	2
3. Plant, Pobl Ifanc ac Addysg	3
3.1. Rheoli'r pandemig yn y tymor byr.....	3
3.2. Adferiad addysgol yn y tymor canolig i'r tymor hir	3
3.3. Addysg ôl-16	4
3.4. Iechyd corfforol ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc	4
4. Llywodraeth Leol a Thai	5
4.1. Llywodraeth Leol	5
4.2. Digartrefedd	6
4.3. Tai.....	7
5. Economi a Masnach	7
5.1. Ardoll twristiaeth.....	7

6. Diwylliant 8

6.1. Effeithiau refeniw parhaus a chyllid ar ymyl y diben.....8

6.2. Pasiâu COVID9

7. Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol..... 9

7.1. Pwysau ar y sector gofal plant.....9

7.2. Pwysau ar wasanaethau cymunedol i oedolion ag anabledd dysgu a phobl â dementia 10

8. Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig 11

8.1. Llifogydd 11

8.2. Trafnidiaeth gyhoeddus yn dilyn y pandemig.....12

8.3. Effeithiau COVID ar dlodi tanwydd.....13

1. Cefndir

Ar 16 Rhagfyr, bydd **Pwyllgor Craffu ar y Prif Weinidog** y Senedd yn craffu ar waith y Prif Weinidog, Mark Drakeford AS. Bydd rhan gyntaf y cyfarfod yn canolbwyntio ar ddull Llywodraeth Cymru o ran adferiad COVID-19 a phwysau'r gaeaf ar wasanaethau cyhoeddus. Mae'r papur briffio hwn yn canolbwyntio ar rai o'r materion allweddol a allai godi yn ystod y drafodaeth.

2. Iechyd a gofal cymdeithasol

2.1. Cynllunio ar gyfer pwysau'r gaeaf

Ar 21 Hydref 2021, cyhoeddodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol **Gynllun y Gaeaf ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2021 i 2022**, gan nodi, "Mae'r cynllun hwn wedi'i ddatblygu gan ymgynghori â phartneriaid iechyd a gofal, yn dilyn misoedd o gynllunio". Cefnogwyd y cynllun **gan gyllid ychwanegol o £42m** sydd ar gael ar gyfer gofal cymdeithasol i helpu i leddfu'r pwysau ar welyau ysbyty.

Roedd cynllun y gaeaf yn ei gwneud yn ofynnol i bob Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol gyflwyno ei gynllun gaeaf iechyd a gofal cymdeithasol integredig ei hun erbyn 25 Tachwedd. Yn y **Cyfarfod Llawn ar 30 Tachwedd** dywedodd y Prif Weinidog "bod yn rhaid i'r system gyfan ddod o hyd i ffordd o ymateb i'r pwysau niferus iawn sydd ar y gwasanaeth ar hyn o bryd".

Rhybuddiodd Prif Weithredwr y GIG ar y pryd, Andrew Goodall y bydd her ddeublyg y pandemig a feirysau anadlol eraill yn golygu mai dyma fydd "un o'r gaeafau caletaf inni eu hwynebu". Mae yna **adroddiadau** o ffigurau perfformiad gwael yn erbyn targedau **damweiniau ac achosion brys** ac **ymateb ambiwlansys**.

Mae'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi cytuno i gynnal ymarfer 'mesur tymheredd' byr yn gynnar yn 2022 i edrych ar sut mae cynlluniau a gwasanaethau yn cyflawni ar lawr gwlad, a lefel y galw yn y gaeaf.

2.2. Rhaglen frechu COVID-19

Mae'r rhaglen frechlyn yn cael ei **hymestyn a'i chyflymu yn sylweddol**. Yn y **Cyfarfod Llawn ar 30 Tachwedd** cydnabu'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau

Cymdeithasol faint yr her wrth gyflawni'r rhaglen:

[...] rydym yn mynd i ymateb yn awr o ran sut yr ydym yn ysgogi'r fyddin frechu newydd hon y byddwn yn ei datblygu yn ystod y dyddiau nesaf. Rydym eisoes, yn amlwg, wedi siarad â'n byrddau iechyd a fydd yn cyflwyno cynlluniau manylach ar ein cyfer yfory. Mae trafodaethau eisoes wedi digwydd gyda llywodraeth leol, gyda'r fyddin, gyda phob math o sefydliadau i weld beth arall y gallwn ei roi ar waith a phwy sy'n barod am hyn – pwy sy'n barod i'n helpu ar yr adeg heriol iawn hon.

Mae **Confederasiwn GIG Cymru** wedi croesawu'r rhaglen estynedig ond wedi rhybuddio y bydd – ar ben y pwysau gwasanaeth presennol – yn ychwanegu cymhlethdod a llwyth gwaith at raglen frechu sydd eisoes yn heriol.

2.3. Y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol

Y gweithlu oedd un o'r blaenoriaethau mwyaf arwyddocaol i randdeiliaid a ymatebodd i ymgynghoriadau'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar **flaenoriaethau ar gyfer y Chweched Senedd**. Roedd yr ymatebion i ymgynghoriad **gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol y Pwyllgor** yn amlygu hefyd effaith y pandemig ar weithlu sydd eisoes dan bwysau, a galwodd am gamau i fynd i'r afael â **phrinder staff a llesiant**, ac i wella'r gwaith o **recrwtio a chadw staff**. Ymhlith y meysydd pryder penodol mae: diagnosteg; canser; anaestheteg; gofal critigol; nyrsio cymunedol ac ardal; gofal lliniarol, a fferylliaeth.

Roedd diffyg capasiti yn y gweithlu gofal cymdeithasol yn bryder mawr arall. **Yn ôl Arolygiaeth Gofal Cymru**, recrwtio a chadw staff yw un o'r prif faterion sy'n wynebu gofal cymdeithasol. Mae Arolygiaeth Gofal Cymru yn poeni, gyda phrinder gofal cartref, y bydd mwy o bobl yn mynd i ofal preswyl yn gynharach nag y mae angen iddynt wneud neu, os oes ganddynt lawer o broblemau iechyd y byddant yn mynd i'r ysbyty.

Mae rhai awdurdodau lleol yn ail-flaenoriaethu gwasanaethau ar gyfer y rhai sydd â'r angen uchaf. Mae hyn yn golygu bod rhai pecynnau cymorth presennol yn cael eu lleihau, gyda theulu a gofalwyr di-dâl yn gorfod llenwi'r bylchau.

Dywedodd Sue Evans, Prif Weithredwr Gofal Cymdeithasol Cymru **wrth y Pwyllgor** fod alinio gofal cymdeithasol ac iechyd yn hollbwysig er mwyn i'r ddwy system weithio'n iawn. Felly, os byddwch yn tanariannu un, bydd hynny'n cael effaith uniongyrchol ar y llall. Mae'r Pwyllgor wedi clywed tystiolaeth gan academyddion am yr angen i fynd i'r afael â materion gweithlu gofal cymdeithasol, a datblygu gwell strategaeth ar gyfer rhyddhau cleifion o'r ysbyty. Mae

Confederasiwn GIG Cymru hefyd wedi nodi'r angen am fwy o gefnogaeth i ofal cymdeithasol a'r gweithlu.

Galwodd Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon y Bumed Senedd am **i weithwyr gofal cymdeithasol gael parch cydradd** â staff y GIG o ran cyflog, amodau gwaith a chydabyddiaeth. Mae **Cytundeb Cydweithio 2021 rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru** yn cynnwys ymrwymïadau i:

- sefydlu grŵp arbenigol i gefnogi'r uchelgais o greu Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol, am ddim pryd a lle bynnag y bo'i angen, gyda chynllun gweithredu erbyn diwedd 2023.
- integreiddio iechyd a gofal yn well a gweithio tuag at sicrhau cydraddoldeb o ran cydnabyddiaeth a thâl i weithwyr iechyd a gofal.

3. Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

3.1. Rheoli'r pandemig yn y tymor byr

Ar hyn o bryd mae ysgolion yn parhau i fod ar agor i bob disgybl heblaw'r rhai sy'n hunanynysu oherwydd bod ganddynt symptomau COVID-19, neu wedi profi'n positif neu eu bod yn aros am brawf PCR negatif oherwydd achos positif yn eu cartref.

Cyn dechrau'r flwyddyn academiaidd hon, **cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Fframweithiau Penderfyniadau Rheoli Heintiau COVID-19 lleol ar gyfer ysgolion a cholegau**. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi darparu **cyllid i wella awyru mewn ysgolion ac amgylcheddau dysgu** ac mae wedi diweddarau ei **chanllawiau i ysgolion** ar 30 Tachwedd yn sgil yr amrywiolyn newydd.

Cydag arholiadau wedi'u canslo, **bu ysgolion yn pennu graddau TGAU, UG a Safon Uwch disgyblion** yn 2020 a 2021, o dan broses a roddwyd ar waith gan Cymwysterau Cymru. Disgwylir i arholiadau **ddychwelyd yn 2022**, gyda rhai newidiadau i gyfrif am yr aflonyddwch ar gyrsiau hyd yn hyn, er bod Cymwysterau Cymru wedi gwneud cynlluniau wrth gefn.

3.2. Adferiad addysgol yn y tymor canolig i'r tymor hir

Collodd disgyblion fisoedd o ddysgu wyneb yn wyneb pan gaewyd ysgolion heblaw ar gyfer disgyblion bregus a phlant gweithwyr allweddol. Er bod yna ddarpariaeth addysgol o bell trwy'r platfform ar-lein 'Hwb', mae pryderon ynghylch profiadau amrywiol o addysgu a dysgu o bell (fel y **nodwyd gan Estyn**), o ran

darpariaeth gan ysgolion ac amgylcheddau cartref disgyblion. Mae pryderon penodol hefyd am ddisgyblion a oedd eisoes dan anfantais.

'Prif ffocws' cynllun adferiad addysgol Llywodraeth Cymru, **Adnewyddu a Diwygio** yw 'darparu cyllid yn uniongyrchol i ysgolion a cholegau i gefnogi a hyrwyddo lles a chynnydd pob dysgwr'. Mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu cyfanswm o **dros £150 miliwn yn 2021-22**, yn ogystal â thros £220 miliwn yn 2020-21, i helpu'r sector addysg ymateb i COVID-19. **Dywedodd y Sefydliad Polisi Addysg** ym mis Mehefin 2021 mai dyma'r uchaf yn y DU.

Yn ogystal ag adfer o'r pandemig, bydd disgwyl i Lywodraeth Cymru ailafael yn ei ffocws ar yr **agenda safonau ysgolion** hirsefydlog, y gellid dadlau ei bod wedi colli momentwm tra bod ysgolion wedi ymdrechu i gynnal, yn hytrach na gwella o reidrwydd, y ddarpariaeth.

3.3. Addysg ôl-16

Tra'r oedd cyfyngiadau ar waith, symudodd prifysgolion y rhan fwyaf o'u dysgu ar-lein i ddechrau ac yna penderfynu eu hunain a ddylid cyflwyno mwy o addysgu personol lle roedd hynny'n cael ei ystyried yn bosibl neu'n angenrheidiol. Mae natur graddau prifysgolion yn golygu bod pob prifysgol wedi gwneud ei threfniadau asesu ei hun ar gyfer pob cwrs.

Roedd darparwyr addysg bellach yn dilyn yr un patrwm addysgu ar y cyfan, ond roedd y trefniadau asesu yn wahanol i brifysgolion. Dilynodd colegau y **trefniadau amgen ar gyfer TGAU, UG a Safon Uwch** a **newidiadau a waned i asesiadau cymwysterau galwedigaethol** gan y cyrff dyfarnu priodol.

3.4. Iechyd corfforol ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc

Ym mis Hydref 2021, holodd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y **Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol** am allu plant i gael mynediad at wasanaethau iechyd, a'r angen i amddiffyn adnoddau ar gyfer gwasanaethau iechyd plant, yng nghyd-destun pwysau'r gaeaf ac adferiad COVID-19.

Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor fod y niwed sy'n deillio o gyfyngiadau COVID-19 yn cael effeithiau sylweddol ar bob agwedd ar fywyd a datblygiad plant a phobl ifanc.

Mae'r **ystadegau** diweddaraf yn dangos, ym mis Medi 2021, fod **542 o blant a phobl ifanc yn aros mwy na phedair wythnos** am apwyntiad cyntaf ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc Arbenigol. Mae hyn yn cymharu

â 152 ym mis Medi 2020, sy'n golygu bod y gyfran sy'n aros am fwy na phedair wythnos wedi codi **o 26% i 73% mewn 12 mis**.

Dywedodd **Gweinidog y Gymraeg ac Addysg** wrth y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn dilyn **sesiwn graffu lafar** fod Llywodraeth Cymru wedi darparu £2 miliwn yn ychwanegol ar gyfer gwasanaethau cwnsela mewn ysgolion yn 2021-22. Mae hyn yn rhan o **gyfanswm o £9 miliwn** ar gyfer dull ysgol gyfan ar gyfer iechyd meddwl yn 2021-22.

4. Llywodraeth Leol a Thai

4.1. Llywodraeth Leol

Mae llywodraeth leol wedi bod ar flaen y gad yn yr ymateb i'r pandemig, gan ddarparu arweinyddiaeth a chydlynu ymdrechion lleol. Mae adnoddau'r sector wedi cael eu hymestyn i'r eithaf, yn erbyn cefndir ariannol a oedd eisoes yn heriol i awdurdodau lleol.

Arweiniodd y pandemig at gynnydd sydyn yn y galw am rai gwasanaethau llywodraeth leol, a gostyngiad cyflym mewn cynhyrchu incwm. O ganlyniad, sefydlodd Llywodraeth Cymru **Gyllid Caledi Llywodraethwyr Lleol**, gan gynnig rhwyd ddiogelwch i awdurdodau lleol.

Ar ddechrau 2021, dyrannwyd **dros £600 miliwn** i awdurdodau lleol trwy'r cyllid caledi. Fel rhan o Gyllideb Derfynol Llywodraeth Cymru 2021-22, cafodd **£206.6 miliwn yn ychwanegol** ei ddyrannu i'r gronfa.

Mewn **dadl ddiweddar yn y Cyfarfod Llawn ar y Gyllideb Atodol Gyntaf ar gyfer 2021-22**, dywedodd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol ei bod hi'n bwriadu cadw'r gronfa yn ei lle trwy gydol blwyddyn ariannol 2021-22. Mae **papur tystiolaeth y Gweinidog i'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai** yn nodi "**nid wyf yn rhagweld y bydd cyllid penodol ar gyfer y Gronfa Caledi yn parhau yn 2022-23**". O ganlyniad, bydd angen i awdurdodau lleol "gynllunio nawr ar gyfer newidiadau i'r ffordd y darperir gwasanaethau a'r galw amdanynt".

Mae pwysau cynyddol ar gyllid awdurdodau lleol, o godiad cyflog a phensiwn i brisiau chwyddiant mewn nwyddau a deunyddiau. Nododd arweinwyr llywodraeth leol yn ystod **sesiwn dystiolaeth i Bwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau y Bumed Senedd** (14 Ionawr 2021) er bod croeso bob amser i gyllid ychwanegol, nad yw'n ddigon i dalu am yr hyn sydd ei angen arnynt nawr.

Mae ansicrwydd parhaus ynghylch cwrs y pandemig yn y dyfodol, a'i effaith hirdymor bosibl ar wasanaethau llywodraeth leol. Mae awdurdodau lleol yn pryderu am y pwysau costau cynyddol ar eu gwasanaethau, ar ben y pwysau presennol yn gysylltiedig â'r pandemig.

Nododd Archwilio Cymru mewn **adroddiad diweddar**, waeth beth fydd llwybr y pandemig yn y dyfodol "bydd bron yn sicr yn effeithio ar gyllid y sector cyhoeddus gan gynnwys llywodraeth leol am sawl blwyddyn i ddod".

Gyda hyn mewn golwg, a chyda amrywiolyn newydd a allai beri pryder, gellir ystyried bod siarad am ddirwyn y gronfa caledi i ben yn gynamserol.

4.2. Digartrefedd

Mae'r **Rhaglen Lywodraethu** yn ymrwmo i "ddiwugio gwasanaethau digartrefedd yn sylfaenol er mwyn canolbwyntio ar atal ac ailgartrefu'n gyflym" ac mae **Cytundeb Cydweithio** 2021 yn ymrwmo i ddod â digartrefedd i ben.

Mewn ymateb i COVID-19, i bob pwrpas, ataliodd Llywodraeth Cymru y prawf angen blaenoriaethol a nodwyd mewn deddfwriaeth digartrefedd a'i gwneud yn glir na ddylai unrhyw un fod heb lety a chefnogaeth addas yn ystod y pandemig – dull 'neb heb help'.

Cefnogwyd y polisi hwn gyda chyllid ychwanegol a chanllawiau statudol ac anstatudol. O ganlyniad, mae nifer y bobl mewn llety dros dro brys wedi cynyddu'n sylweddol. Ar 30 Medi 2021, roedd ychydig llai na **7,000 o bobl** mewn **llety brys dros dro** ac mae dros 1,000 o bobl yn cyflwyno eu hunain yn ddigartref i awdurdodau lleol bob mis.

Cymerwyd camau hefyd i helpu i atal digartrefedd yn ystod y pandemig. Roedd moratoriwm ar droi pobl allan o'u tai a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2021, ac mae cyfnodau rhybudd i'r mwyafrif o denantiaid wedi'u hystyngtu i 6 mis (mae hyn i fod i ddod i ben ar 31 Rhagfyr 2021).

Cafodd **Grant Caledi Tenantiaeth** ei gyflwyno i helpu gydag ôl-ddyledion rhent yn gysylltiedig â COVID-19; darparwyd £4.1 miliwn o arian ychwanegol i awdurdodau lleol ar gyfer Taliadau Tai Dewisol a darparwyd cyllid ychwanegol ar gyfer gwasanaethau cynghori. Gwelwyd cynnydd o £40 miliwn i'r Grant Cymorth Tai, sy'n ariannu gwasanaethau cymorth.

Mae cynllun prydlesu sector preifat, gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru, yn cael ei gyflwyno ledled Cymru i leddfu'r pwysau ar wasanaethau tai i bobl sydd mewn

perygl o fod yn ddigartref, neu sy'n profi digartrefedd.

Cyhoeddwyd **Rhoi diwedd ar ddigartrefedd: cynllun gweithredu lefel uchel 2021 i 2026** ar 30 Tachwedd 2021. Mae'n ymrwymo i gefnogi ymateb brys iechyd y cyhoedd i ddigartrefedd yn ystod y pandemig gyda chyllid yn cael ei ddarparu trwy gronfa caledi awdurdodau lleol (gan nodi bod hyn ar gyfartaledd tua **£2 miliwn y mis**).

4.3. Tai

Mae cynyddu'r cyflenwad tai yn un o nifer o ffactorau a all gyfrannu at atal digartrefedd a dod ag ef i ben. Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn cynnwys ymrwymiad i adeiladu 20,000 o gartrefi cymdeithasol carbon isel i'w rhentu. Mae Rhaglen Grant Tai Cymdeithasol Llywodraeth Cymru, sy'n cefnogi'r rhan fwyaf o gartrefi fforddiadwy newydd, wedi gweld cynnydd yn ei chyllideb i **£250 miliwn yn 2021-22**.

Mewn **llythyr** i'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai ym mis Hydref 2021, nododd y Gweinidog Newid Hinsawdd "Mae gwaith yn mynd rhagddo hefyd i ddatblygu cytundeb Tai tair-ochrog rhwng y Llywodraeth hon, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Cartrefi Cymunedol Cymru."

5. Economi a Masnach

5.1. Ardoll twristiaeth

Ym mis Mawrth 2021, cyhoeddodd Llywodraeth flaenorol Cymru **gynllun adfer newydd** ar gyfer y sector twristiaeth, lletygarwch a digwyddiadau a ddatblygwyd mewn ymgynghoriad â Thasglu Twristiaeth Llywodraeth Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n datblygu Cynllun Gweithredu a fydd yn rhoi mwy o fanylion am yr ymyriadau a nodir yn y ddogfen ac yn mynd i'r afael â sut y byddant yn cael eu cyflawni a chan bwy. Nid oes unrhyw sôn yn y ddogfen am oblygiadau posibl **ardoll twristiaeth**.

O ran effaith y pandemig mae'r ddogfen yn nodi bod 97% o fusnesau twristiaeth yng Nghymru wedi nodi colled mewn refeniw ar gyfer 2020, gyda bron i hanner (49%) yn nodi colledion rhwng £10,000 a £50,000.

Ym mis Mawrth 2021, roedd **Adroddiad Polisi Trethi Cymru 2021** Llywodraeth Cymru yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd i archwilio'r achos dros

alluogi awdurdodau lleol i gyflwyno treth dwristiaeth.

Roedd yr adroddiad yn nodi bod Llywodraeth Cymru wedi bwriadu cyhoeddi galwad am dystiolaeth ar dreth dwristiaeth nôl yn 2020. Fodd bynnag, gohiriwyd y gwaith hwn yng ngwanwyn 2020 yn sgil ansicrwydd ac effaith barhaus COVID-19 ar letygarwch. Mae'r adroddiad hefyd yn nodi'r canlynol:

Rydym yn parhau i fonitro cynnydd ac ystyried enghreifftiau, yn rhyngwladol ac yn y DU, o sut mae trethi twristiaeth yn gweithio'n ymarferol. Bydd yn bwysig parhau i wneud hyn yn 2021 wrth inni ystyried goblygiadau posibl COVID-19 ar drethi twristiaeth yn rhyngwladol, wrth i'r diwydiant geisio adfer o effaith y pandemig. Mae angen archwilio ac ystyried nifer o faterion polisi ymhellach, gan gynnwys cyfraddau Treth ar Werth ar lety i dwristiaid, yn enwedig nawr bod y DU wedi gadael yr UE, a sut byddai trethi ar dwristiaeth leol yn croestorri meysydd polisi allweddol eraill, fel trethi lleol a phwysau rheoleiddiol presennol, a'r angen posibl am gofrestru statudol.

Roedd **Rhaglen Lywodraethu** Llywodraeth Cymru ar gyfer y Chweched Senedd yn nodi y byddai'n "cyflwyno deddfwriaeth sy'n caniatáu i awdurdodau lleol godi ardoll twristiaeth".

Mae **Cytundeb Cydweithio 2021** rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru yn nodi y byddant yn "cyflwyno ardollau twristiaeth lleol gan ddefnyddio deddfwriaeth diwygio cyllid llywodraeth leol". Mewn ateb i gwestiwn gan Tom Giffard AS yn y Cyfarfod Llawn ar 1 Rhagfyr, **dywedodd** Gweinidog yr Economi fod Llywodraeth Cymru yn bwriadu ymgynghori ar 'bŵer caniatool' i awdurdodau lleol gyflwyno ardollau, ac y bydd hynny'n digwydd "yn ystod y flwyddyn nesaf".

6. Diwylliant

6.1. Effeithiau refeniw parhaus a chyllid ar ymyl y diben

Mae Llywodraeth Cymru wedi sicrhau bod dwy rownd o gyllid adfer diwylliannol ar gael ar gyfer sefydliadau diwylliannol a lleoliadau gan gynnwys theatrau a neuaddau cyngerdd – gan osgoi cau nifer ohonynt ar raddfa eang yn y sector. Yn dilyn y ddwy rownd hyn – a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2020 a mis Mawrth 2021 – cafwyd cyhoeddiadau cyllid cyfatebol gan Lywodraeth y DU mewn perthynas â Lloegr, a oedd yn sbarduno symiau canlyniadol Barnett i Gymru.

Mae sefydliadau celfyddydol wedi cysylltu â Chyngor y Celfyddydau a Llywodraeth Cymru i gael ymateb cyflym wedi'i dargedu i gefnogi adferiad busnesau bregus allweddol yn eu sector, gan nodi effaith ariannol barhaus y pandemig. Dywedodd:

It is impossible to switch overnight to an immediately economically sustainable business model without some kind of tapered safety net aimed at providing vital continued support to enable long term recovery.

6.2. Pasiau COVID

Ar 11 Hydref 2021, cyflwynodd Llywodraeth Cymru **basiau COVID** gorfodol ar gyfer clybiau nos a digwyddiadau mawr. Ar 29 Hydref cyhoeddodd y Prif Weinidog fod Llywodraeth Cymru yn bwriadu ymestyn y defnydd o basiau COVID i theatrau, sinemâu a neuaddau cyngerdd o 15 Tachwedd.

Mewn datganiad i'r wasg yn dilyn y cyhoeddiad y dylid ymestyn y pasiau i sinemâu, dywedodd Ffilm Cymru:

As with the UK Cinema Association, we are not aware of any instances of transmission taking place within a cinema context in Wales. We would therefore have preferred to have seen the Covid Pass as one of the measures that individual venues may have chosen to implement, rather than mandated for all cinemas in Wales.

Cinemas continue to be financially challenged. We are particularly conscious that many venues rely on 'walk-in' rather than advance bookings, which, coupled with a potential hit to consumer confidence, will likely mean reduced income when the COVID Pass is implemented. We therefore call upon Welsh Government to ready further financial support for the sector, whilst encouraging the use of our vital and valuable cultural spaces.

Gwnaeth Cinema and Co, sinema annibynnol yn Abertawe, **wrthod yn gyhoeddus** gofyn i gwsmeriaid am eu pasiau COVID, ac mae wedi bod **ar gau dros dro** gan awdurdodau gorfodi. Dywedodd y Prif Weinidog **ar 18 Tachwedd** nad yw wedi diystyru estyn pasiau COVID i'r sector lletygarwch.

7. Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

7.1. Pwysau ar y sector gofal plant

Mae **Cytundeb Cydweithio 2021** rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru yn cynnwys ymrwymïadau i:

- sicrhau bod y ddarpariaeth ar gyfer y blynyddoedd cynnar yn cael ei hehangu'n raddol i gynnwys pob plentyn dwy flwydd oed, gan roi pwyslais penodol ar sicrhau bod cymunedau mwy difreintiedig yn cael cyfle cyfartal i fanteisio ar

ddarpariaeth o'r fath

- gwneud mwy i alluogi'r rheini sydd mewn addysg/hyfforddiant neu ar gyrion gwaith fanteisio ar ofal plant
- mynd ati gyda'r Mudiad Meithrin ac eraill i edrych ar y posibilrwydd o greu cynllun hirdymor i gryfhau'r gallu i ddarparu rhagor o ddarpariaeth ar gyfer y blynyddoedd cynnar drwy gyfrwng y Gymraeg

Canfu Coram Family and Childcare fod canran awdurdodau lleol Cymru oedd â darpariaeth gofal plant ddigonol wedi cynyddu ar gyfer nifer o grwpiau rhwng 2020 a 2021, ond syrthiodd i deuluoedd sy'n byw mewn ardaloedd gwledig, rhai sy'n gweithio oriau annodweddiadol a theuluoedd â phlant anabl.

Mae tystion o ymchwiliad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol i ofal plant a chyflogaeth rhieni wedi tynnu sylw at effeithiau **prinder staff** yn y sector o ganlyniad i weithwyr yn gadael yn ystod y pandemig. **Dywedodd** Dr Gwenllian Lansdown Davies o'r Mudiad Meithrin wrth y Pwyllgor "mae her recriwtio wedi bod yn y gweithlu cyfrwng Cymraeg ers blynyddoedd, ond mae'r wasgfa bresennol ar y sector cyfrwng Saesneg hefyd yn cael dylanwad ar y gweithlu cyfrwng Cymraeg". Aeth ymlaen i nodi bod angen gweithredu yn y maes hwn i greu "gweithlu proffesiynol, cymwys, sydd yn cael cydnabyddiaeth ariannol o'r hyn maen nhw'n ei wneud".

Dywedodd y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol wrth y Pwyllgor **ar 29 Tachwedd** y bydd Llywodraeth Cymru yn datblygu cynllun ar gyfer y gweithlu a fydd yn edrych ar ehangu'r ddarpariaeth i blant dwy oed a'r dull tymor hwy.

7.2. Pwysau ar wasanaethau cymunedol i oedolion ag anabledd dysgu a phobl â dementia

Fe wnaeth y pandemig leihau mynediad at wasanaethau gofal a chymorth yn sylweddol, wrth i wasanaethau canolfan ddydd a chymorth seibiant ddod i ben. Ar hyn o bryd mae Cymru ar '**Rybudd Lefel 0**', fodd bynnag, mae yna **ofyniad cyfreithiol o hyd i gynnal asesiad risg coronafeirws** a rhoi mesurau rhesymol ar waith i leihau risgiau, gan gynnwys cyfyngiadau ar nifer y bobl a ganiateir mewn rhai adeiladau.

Oherwydd cyfyngiadau parhaus, **nodwyd** fod canolfannau dydd yn gweithredu ar gapasiti llai, gan arwain at lawer o bobl naill ai'n methu mynd yno neu fod eu horiau gofal wedi lleihau.

Canfu **arolwg a gynhaliwyd gan Gofalwyr Cymru ym mis Tachwedd** fod gofalwyr yn dal i orfod gweithio mwy o oriau yn gofalu am y person maen nhw'n gofalu amdano, gyda 64% o ofalwyr wedi cael llai o wasanaethau neu ddim o gwbl a bod dros traean o ofalwyr wedi nodi llai o fynediad neu ddim mynediad o gwbl i weithwyr gofal cyflogedig.

Dyweddodd Cymdeithas Alzheimer fod pobl yr effeithir arnynt gan **ddementia** wedi cael eu taro galetaf gan y pandemig. I lawer o bobl â dementia sy'n byw gartref, mae canllawiau cadw pellter cymdeithasol ar gyfer ffrindiau a theulu, y cyngor i warchod yn ogystal â lleihau neu ganslo gwasanaethau gofal cartref yn golygu eu bod yn cael eu gadael heb gyfleoedd i ryngweithio a chael cymorth cymdeithasol hanfodol.

Mae cau a lleihau gwasanaethau gofal a chymorth yn barhaus hefyd wedi cael **effaith amlwg ar ofalwyr di-dâl**, sy'n gorfod ysgwyddo mwy o gyfrifoldebau gofalu, heb egwyl na seibiant digonol o ofalu.

Ym mis Mawrth 2021, cyhoeddodd **Llywodraeth Cymru strategaeth ar gyfer gofalwyr di-dâl** a chyhoeddodd gyllid o £3 miliwn i arallgyfeirio a chynyddu mynediad at wasanaethau seibiant ledled Cymru. Mae'r strategaeth yn blaenoriaethu ateb y galw cynyddol am ganolfannau dydd a gwasanaethau gofal eistedd ac amgen mwy traddodiadol.

8. Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

8.1. Llifogydd

Ym mis Chwefror 2020 gwelwyd **llifogydd difrifol ledled Cymru**. Mae llifogydd yn fater arwyddocaol o ran parodrwydd at y gaeaf, gyda 245,000 o eiddo yng Nghymru mewn perygl o lifogydd.

Mae **Cytundeb Cydweithio 2021** rhwng Plaid Cymru a Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i gynnal adolygiad annibynnol o adroddiadau llywodraeth leol a Cyfoeth Naturiol Cymru ar lifogydd 2020-21.

Mae'r Cytundeb hefyd yn addo cynyddu buddsoddiad llifogydd a buddsoddiad lliniaru, ac i Gomisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru asesu "sut y gellir lleihau'r tebygolrwydd o lifogydd mewn cartrefi, busnesau a seilwaith ledled y wlad erbyn 2050"

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gael “**mesurau ychwanegol i amddiffyn dros 45,000 o gartrefi rhag llifogydd**”. Dywedodd Cyfoeth Naturiol Cymru **wrth y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith** ei bod hi'n hanfodol meddwl am y darlun mawr ar raddfa dalgylch.

Cafodd systemau draenio cynaliadwy (SuDS) gorfodol, sef ffordd o reoli llifogydd yn naturiol, eu cyflwyno yng Nghymru yn 2018. Mae'r **Rhaglen Lywodraethu** yn ymrwymo i ddeddfu i gryfhau'r gofynion hyn, a:

Rheoli llifogydd mewn modd sy'n seiliedig ar natur ym mhob dalgylch mawr i ehangu cynefinoedd gwlyptiroedd a choetiroedd.

Pwysleisiodd Cyfoeth Naturiol Cymru bwysigrwydd cynllunio defnydd tir ochr yn ochr â datrysiadau ar sail natur. **Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru yn ddiweddar** y bydd yn rhaid i ddatblygiadau ystyried perygl llifogydd ac erydu arfordirol yn y dyfodol.

8.2. Trafnidiaeth gyhoeddus yn dilyn y pandemig

Cwmpodd nifer y teithwyr bysiau a rheilffyrdd yn ystod y pandemig ac mae niferoedd yn isel o hyd. Ni chwmpodd y defnydd o geir cymaint ac mae eu defnydd wedi adfer yn gyflymach. Cynyddodd teithio llesol / beicio yn sylweddol yn ystod y cyfnodau clo.

Cafodd bysiau a rheilffyrdd tua £200m o gyllid brys ychwanegol yn 2020-21, a dyrannwyd cyllid ychwanegol pellach yn 2021-22.

Mae erthygl Ymchwil y Senedd **Rhoi'r cyhoedd yn ôl mewn trafndiaeth gyhoeddus** yn crynhoi'r materion a'r camau a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru.

Roedd tystiolaeth i'r **Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith gan y sector bysiau** yn galw am newid mewn cyngor teithio i annog y cyhoedd yn ôl i drafnidiaeth gyhoeddus. Galwodd tystion hefyd am fwy o eglurder ar lywodraethu trafndiaeth, rolau a chyfrifoldebau cyrff cyhoeddus, a gweithio rhanbarthol.

Adferiad trafndiaeth gyhoeddus, a chyflawni **Strategaeth Drafnidiaeth Cymru** newydd oedd blaenoriaethau tystion ac ymatebwyr y Pwyllgor hwnnw, gan gynnwys y targed y bydd 45% o deithiau'n defnyddio trafndiaeth gyhoeddus/dull teithio llesol erbyn 2040, gan osgoi adferiad sy'n cael ei arwain gan geir.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi Papur Gwyn ar fysiau eleni.

8.3. Effeithiau COVID ar dlodi tanwydd

Cyflwynodd National Energy Action (NEA) **dystiolaeth i'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith** gan nodi fod gan Gymru'r stoc adeiladu hynaf a lleiaf effeithlon o ran thermol ymhlith cenedloedd y DU a gwledydd gogledd Ewrop.

Roedd dystiolaeth yr NEA yn nodi, hyd yn oed cyn y pandemig a'r cynnydd diweddar ym mhrisiau ynni, bod yn rhaid i aelwydydd tlawd yng Nghymru wario £431 yn ychwanegol fesul aelwyd i aros yn gynnes. Cyfeiriodd NEA at **amcangyfrifon tlodi tanwydd Llywodraeth Cymru** sy'n nodi bod 12% o holl aelwydydd Cymru mewn tlodi tanwydd yn 2018. Nododd:

Following the COVID-19 pandemic, these numbers are likely to be significantly higher now as people have been at home more, using more and owing more, all while earning less.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru **Gynllun Cymorth Tanwydd Gaeaf** ym mis Tachwedd, gydag aelwydydd cymwys yn derbyn taliad untro o £100.

Ym mis Mawrth 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru **Trechu tlodi tanwydd 2021 i 2035** gan osod targedau i'w cyflawni erbyn 2035, gan gynnwys sicrhau na fyddai unrhyw aelwydydd yn byw mewn tlodi tanwydd "difrifol neu barhaus", ac nad oes mwy na 5% o aelwydydd yn byw mewn tlodi tanwydd "cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol";

Mae'r **Rhaglen Cartrefi Cynnes** yn bolisi lliniaru tlodi tanwydd allweddol gan Lywodraeth Cymru. Mae'n cynnwys **Nyth** ac **Arbed**, sy'n ariannu gwelliannau a chyngor effeithlonrwydd ynni cartref ar gyfer cartrefi cymwys. **Bydd Llywodraeth Cymru yn ymgynghori** ar gryfhau'r Rhaglen Cartrefi Cynnes erbyn diwedd 2021, gyda'r cynllun newydd yn cychwyn yn 2023

Cyhoeddodd Archwilio Cymru **adroddiad** ym mis Tachwedd 2021, a oedd yn awgrymu bod cynllun Nyth wedi canolbwyntio fwyfwy ar ddisodli boeleri sydd wedi torri neu sy'n aneffeithlon i bobl ar fudd-daliadau prawf modd, yn hytrach na thargedu'r rhai sydd mewn tlodi tanwydd. Roedd hefyd yn cwestiynu effeithiolrwydd dull Arbed o fod yn seiliedig ar ardal.